LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

CYNLLUN STRATEGOL CYDRADDOLDEB

2018 – 2022

(Fersiwn ddiwygiedig – Mawrth 2021)

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

www.llyfrgell.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywedd	4
Cefndir Cyfreithiol	5
Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	6
Gwybodaeth am Lyfrgell Genedlaethol Cymru	7
Amcanion Cydraddoldeb 2018-2022	8
Monitro ac adrodd a'r gynnydd	11
Cyfrifoldebau	13

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn sy'n cwmpasu ein holl ddyletswyddau cyfreithiol ac yn cadarnhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth dros y 4 blynedd nesaf, rhai o'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd i roi ein hymrwymiadau ar waith a sut y byddwn yn monitro ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd.

Mae croeso bob amser i sylwadau ac awgrymiadau ar sut y gall y Llyfrgell wella ei pherfformiad a'i hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth a gellir eu cyflwyno ar unrhyw adeg i:

Uned Adnoddau Dynol
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

neu drwy e-bost at cydraddoldeb@llyfrgell.cymru

Ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywedd

Rydym wedi ymrwymo i drin ein staff, gwirfoddolwyr, defnyddwyr a rhanddeiliaid yn deg. Byddwn yn sicrhau na fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd ei hoedran, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, dosbarth cymdeithasol, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol newid rhywedd, statws priodasol, neu am unrhyw reswm annheg arall.

Mae Cynllun Strategol y Llyfrgell ar gyfer 2021-2026 “Llyfrgell i Gymru a’r Byd” yn nodi ein bod am roi’r mynediad ehangaf posibl i’n casgliadau boed yn yr adeilad yn Aberystwyth, mewn safleoedd eraill yng Nghymru, ar ein gwefan a thrwy blatfformau a sianeli ar-lein. Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at adlewyrchu cefndiroedd a phrofiadau amrywiol pobl Cymru.

Yn ystod 2021 bydd y Llyfrgell yn mabwysiadu Polisi Dim Hiliaeth Cymru a bydd yn cymryd rhan yn natblygiad a chyflwyniad Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru. Mae'r Llyfrgell wedi paratoi ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ei hun.

Covid-19

Yn ôl y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol mae pandemig Covid-19 wedi gwthio cyfanswm y bobl yn y DU sy'n byw mewn tlodi i fwy na 15 miliwn - 23% o'r boblogaeth. Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau i ddiwylliant a gwaith i'r rhai sy'n profi anghydraddoldebau o ganlyniad i fyw mewn tlodi.

Mae lles staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod yr amser anodd hwn. Rydym yn ymrwymo i gefnogi iechyd a lles pawb wrth inni ddychwelyd i'r “normal newydd”.

Cydraddoldeb Hiliol

Mae mudiad *Black Lives Matter* a'r ddadl gyhoeddus dros y misoedd diwethaf wedi amlygu’n glir bod ein polisïau a'n gweithredoedd yn methu â chyrraedd y gwerthoedd y dylem eu cynnal wrth ddatgan ein cydsafiad â phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn erbyn yr anghyfiawnder sy'n eu hwynebu.

Mae'r Llyfrgell yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ein cymdeithas a bydd yn gweithio yn y cymunedau hyn i ddarparu deunyddiau dysgu, addysgol, dehongli a marchnata sy'n cydnabod ac yn dathlu cymysgedd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol y gymdeithas. Byddwn hefyd yn annog ymgysylltiad eang a hyrwyddo egwyddorion ac ymarfer gwrth-hiliol.

Cefndir Cyfreithiol

Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb newydd i rym ar 1 Hydref 2010. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dod â mwy na 116 o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth at ei gilydd mewn un Ddeddf. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn creu Deddf newydd sy'n rhoi fframwaith cyfreithiol i amddiffyn hawliau unigolion a hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.

Drwy roi'r Ddeddf ar waith, byddwn yn gweithio i greu cymdeithas decach, gwella gwasanaethau sydd yn y pen draw yn gwella bywydau pobl.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r llyfrgell, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl sy'n perthyn i wahanol grwpiau gwarchodedig (adnabyddir hyn fel Dyletswydd y Sector Cyhoeddus).

Dyma'r grwpiau neu'r nodweddion gwarchodedig:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- rhyw
- hil
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- tueddfryd rhywiol
- crefydd a chred
- priodas a phartneriaeth sifil (o ran yr angen i ddileu gwahaniaethu'n unig)

Fel sefydliad cenedlaethol mae dyletswydd arnom hefyd i gydymffurfio a fframwaith cyfreithiol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n gorfodi dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. Mae cryn gysylltiad rhwng y modd ehangach y mae'r llyfrgell yn ymdrin â chydraddoldeb ac amrywedd ac ymrwymiad y llyfrgell i'r Gymraeg . Mae'n bwysig inni sicrhau bod pobl yn gallu ymdrin â'r Llyfrgell yn yr iaith o'u dewis hwy (Cymraeg neu Saesneg).

Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Y Ddyletswydd Gyffredinol

Nod y Ddyletswydd Gyffredinol yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau pob dydd.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw priodol i'r angen i:

1. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf;
2. Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
3. Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 y Ddeddf.

Mae'r dyletswyddau wedi'u datblygu i fod yn gymesur, i fod yn berthnasol i angen, yn dryloyw o ran dull ac wedi'u teilwra i arwain cyrff cyhoeddus perthnasol Cymru tuag at berfformiad gwell o'r ddyletswydd gyffredinol. Yr uchelgais yw i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru, sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt gan y sector cyhoeddus.

Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru yn cael eu nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011.

Yng Nghymru, mae'r dyletswyddau penodol yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyrff a restrir i ddatblygu a chyflwyno'r canlynol:

▪ Amcanion ▪ Cynlluniau Strategol Cydraddoldeb ▪ Ymgysylltu ▪ Asesu Effaith ▪ Gwybodaeth cydraddoldeb ▪ Gwybodaeth cyflogaeth ▪ Gwahaniaethau rhwng cyflogau	▪ Hyfforddiant staff ▪ Caffael ▪ Adroddiad blynyddol (gan Awdurdodau Cyhoeddus a Gweinidogion Cymru) ▪ Cyhoeddi ▪ Adolygiad ▪ Hygyrchedd

Gwybodaeth am Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Sefydlwyd y Llyfrgell drwy Siarter Frenhinol ym 1907 a chaniatawyd Siartrau Atodol a oedd yn cyflwyno mân newidiadau ym 1911 ac 1978. Ym 2006 caniatawyd Siarter Frenhinol Atodol a Statudau newydd. Newidiodd hyn gyfansoddiad y Llyfrgell a'i llywodraethant yn sylweddol gan roi ystyriaeth arbennig i ddatblygiadau cyfansoddiadol diweddar a ddeilliodd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Diwygiwyd Statudau'r Llyfrgell ymhellach yn 2013.

Y Llyfrgell yw llyfrgell ac archif digymar Cymru. Mae'n adnodd gwybodaeth enfawr ac yn drysorfa ar bob pwnc, ac yn storfa fyw o ddiwylliant cofnodedig Cymru – ein 'Treftadaeth Ddogfennol' fel y diffinnir gan UNESCO – sydd ar gael yn rhydd i bawb. Mae hefyd yn un o'r chwe Llyfrgell 'Adnau Cyfreithiol' y Deyrnas Unedig ac Iwerddon sy'n golygu fod ganddi freintiau statudol sy'n ei galluogi i gasglu cyfran uchel o holl allbwn cyhoeddiadau print y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, gan gynnwys fformatau electronig. Erbyn heddiw, mae iddi dri dimensiwn – adeilad ffisegol ysblennydd yn Aberystwyth sy'n gartref i'r casgliadau print, llawysgrifau, gweledol a chlyweledol, llyfrgell ac oriel ar-lein sydd ar gael ar draws y byd dros y rhyngrwyd, ac mae'n ehangu ei phresenoldeb mewn amryw o leoliadau yng Nghymru.

Mynegir diben y Llyfrgell yn Siarter Frenhinol Atodol 2006 fel:

> 'casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.'

Ceir mwy o wybodaeth am y Llyfrgell, ei chasgliadau cyfoethog a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi ar ein gwefan www.llyfrgell.cymru

Amcanion Cydraddoldeb 2018 – 2022

Amcan 1	**Denu, cadw a datblygu'r gweithlu fel Cyflogwr Cyfle Cyfartal**
Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol?	Pob un.
Beth a sut ydym ni am wneud hyn?	▪ Byddwn yn cymryd camau i waredu rhwystrau a chynyddu nifer yr ymgeiswyr ethnig amrywiol sy'n ceisio am swyddi yn y Llyfrgell. ▪ Hyfforddiant manwl ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywedd e.e. "Hyrwyddwyr Cydraddoldeb". ▪ Yr **holl** staff i dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o hiliaeth a thuedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth. ▪ Gweithio tuag at Achrediad Hyderus ag Anabledd. ▪ Cynnal diwrnodau ymwybyddiaeth blynyddol (e.e. edrych ar galendr Cydraddoldeb ac Amrywedd CIPD i weld rhestr digwyddiadau). ▪ Casglu a monitro data cydraddoldeb o safbwynt tâl cyflogaeth a'r gweithle. ▪ Sicrhau y bydd pob aelod o staff yn cael cyfleoedd datblygu a gwella i sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u potensial. ▪ Oherwydd Covid-19 cefnogi iechyd a lles ein staff wrth iddynt ddychwelyd i'r gweithle yn raddol i'r "normal newydd".
Pa ganlyniadau yr ydym am eu gweld?	▪ Drwy hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth byddwn yn medru ymdrin â lleihau unrhyw anghydraddoldeb ▪ Mesur yr hyn a gyflawnir trwy sicrhau ein bod yn derbyn adborth cyson oddi wrth ein gweithlu a gweithredu arno. ▪ Cael mwy o wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb aelodau staff er mwyn adnabod os oes rhwystrau.

Amcan 2	**Gwella ein trefniadau o ran cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**
Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol?	Pob un
Beth a sut ydym ni am wneud hyn?	▪ Darparu hyfforddiant i'r holl staff ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. ▪ Sicrhau bod yr holl bolisïau, prosiectau gweithdrefnau, arddangosfeydd ayyb yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb. ▪ Codi ymwybyddiaeth a sicrhau gwelliant parhaus yn y maes gwaith hwn.
Pa ganlyniadau yr ydym am eu gweld?	▪ Bod y Llyfrgell yn weithlu sy'n ymwybodol bod cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb yn rhan naturiol o'i dyletswydd a thrwy hyn yn medru adnabod yr effaith ar wahanol garfannau a lleihau unrhyw annhegwch.

Amcan 3	**Annog ac Ehangu Ymgysylltiad Cyhoeddus**
Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol?	Pob un.
Beth a sut ydym ni am wneud hyn?	▪ Hyrwyddo gwaith y Llyfrgell trwy hysbysu'r Cyhoedd y gallant ymweld â'r Llyfrgell a'u bod yn ymwybodol o'n cyfleusterau. ▪ Sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael hyd i wybodaeth yn rhwydd a chyflym am y Llyfrgell a'i busnes, e.e. recriwtio, gwirfoddoli, addysg, arddangosfeydd ayyb. ▪ Gall sefydliadau a grwpiau diddordeb ystyried ystâd y Llyfrgell fel lleoliad lle gallant gynnal digwyddiadau. ▪ Ceisio cyfleoedd i gyrraedd at grwpiau amrywiol/a dangynrychiolir nad sydd wedi dod i gysylltiad yn flaenorol â'r Llyfrgell nac ymwneud â'i gwaith. ▪ Sefydlu cysylltiadau â sefydliadau/cyrff sy'n cynrychioli neu'n gweithio'n agos gyda chymunedau ethnig amrywiol.

Pa ganlyniadau yr ydym am eu gweld?	▪ Gweld cynnydd yn nifer ein darllenwyr / ymwelwyr - bod aelodau'r cyhoedd yn medru dod o hyd i wybodaeth yn hawdd a chyflym am y Llyfrgell, sut i gysylltu â hi ac i ymweld â hi yn gorfforol neu drwy ein gwasanaethau electronig. ▪ Bod mwy o grŵpiau amrywiol/a dangynrychiolir yn defnyddio'n gwasanaethau a'n cyfleusterau.

Amcan 4	**Darparu Ystâd a Chyfleusterau cynhwysol, gan gynnwys mynediad yn yr ystyr ehangaf**
Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol?	Pob un.
Beth a sut ydym ni am wneud hyn?	▪ Cynnal archwiliad o broffil demograffig ymwelwyr i'r Llyfrgell a Sefydliadau Partner er mwyn cael barn ynglŷn â sut i wella'r cyfleusterau / mynediad. Ar sail yr adborth, sefydlu Grŵp Ffocws i gynnwys staff ac ymwelwyr i weithio ar y canfyddiadau. ▪ Adolygu'r holl ddeunyddiau mewn perthynas â marchnata, cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i gwsmeriaid i sicrhau bod neges "gadarnhaol ynglŷn ag amrywiaeth" yn cael ei chyfleu. ▪ Gwella arwyddion allanol a mewnol i groesawu ymwelwyr a hyrwyddo gwasanaethau a chyfleusterau
Pa ganlyniadau yr ydym am eu gweld?	▪ Casglu gwybodaeth y defnyddwyr ar sut y mae modd gwella cyfleusterau/ mynediad i'r adeilad a gweithredu arno ▪ Ein bod yn medru cydweithio efo Sefydliadau Partner i ddenu a gweithio efo unigolion o gefndiroedd amrywiol

Monitro ac adrodd a'r gynnydd

Ymgysylltu a Monitro

Mae Ymgysylltu yn un o'r dyletswyddau penodol yng Nghymru. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol hwn wedi cynnwys cynrychiolwyr o blith ein rhanddeiliaid, cwsmeriaid a staff. Dros y pedair blynedd nesaf, bydd y Llyfrgell yn datblygu ymhellach y modd y mae hi'n ymgysylltu ac yn monitro'r perfformiad yn erbyn ein hamcanion.

Yn flynyddol byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a fydd yn dangos y camau y byddwn fel Llyfrgell wedi eu cymryd dros y deuddeg mis i weithio tuag at gyflawni ein pedwar amcan. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Gweithredol ac yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan. Bydd y Cynllun Stratgeol Cydraddoldeb hwn yn cael ei adolygu bob 4 blynedd.

Asesu Effaith

Mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn medru dangos ein bod wedi rhoi 'ystyriaeth ddyledus' i effaith bosibl ei pholisïau a'i phenderfyniadau ar y 'nodweddion gwarchodedig' a nodwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. I'r perwyl hyn yr ydym wedi llunio canllawiau a thempled ein hunain ar gyfer asesu polisïau ac ymarferion.

Wrth edrych ar yr asesiadau effaith sydd wedi eu cwblhau hyd yn hyn yr ydym wedi adnabod nad yw'r safon yn gyson na chwaith y gwaith o'u datblygu bob tro'n cael ei gyflawni'n addas. Rydym felly yn blaenoriaethu gwella safon ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb fel un o'n hamcanion dros y pedair blynedd nesaf.

Hyfforddiant Staff

Bydd y Llyfrgell yn darparu hyfforddiant manwl i'w holl staff, rheolwyr a gwirfoddolwyr ar bob mater Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â chydraddoldeb ac yn ystyried sut mae cydraddoldeb yn effeithio ar bob agwedd o'r sefydliad, nid materion cyflogaeth yn unig. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi pwyslais ar y cyfrifoldeb sydd ar y Llyfrgell i sicrhau amgylchedd cynhwysol i'r holl staff ac ymwelwyr.

Caffael

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn berthnasol i holl faterion caffael, waeth beth yw gwerth y cytundeb. Mae'r ddyletswydd benodol yn berthnasol pan rydym yn caffael nwyddau, gwasanaethau neu waith gan sefydliadau eraill. Wrth gaffael nwyddau fel corff cyhoeddus, mae gennym fel Llyfrgell gyfle i ddylanwadu ar y modd y mae sefydliadau'r sector preifat yn

gweithio a byddwn yn defnyddio hyn i ddatblygu cydraddoldeb. Wrth fodloni'r ddyletswydd gyffredinol, byddwn yn:

- Sicrhau bod dyletswyddau cyffredinol yn rhan o'n dogfennau caffael fel bod gennym ddull cyson o gaffael nwyddau a gwasanaethau ledled yr holl Lyfrgell.

- Mynnu bod unrhyw fusnes neu gwmni sy'n dymuno bod yn un o'n contractwyr neu gyflenwyr yn cytuno i ddilyn Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwahaniaethau tâl

Mae mynd i'r afael a gwahaniaethau tâl yn un o'r dyletswyddau penodol yng Nghymru. Gan fod y Llyfrgell a llai na 250 o staff nid oes rhaid inni gyhoeddi unrhyw gyfrifiadau statudol yn flynyddol i ddangos ein bwlch cyflog rhwng ein gweithwyr gwrywaidd a benywaidd. Fel ymarfer da bydd y Llyfrgell yn cynnal archwiliad o'r gwahaniaethau tâl er mwyn adnabod y bylchau / anghysondebau a thrwy hyn datblygu camau gweithredu ar gyfer gwella.

Cyfrifoldebau

O fewn y sefydliad

Y Prif Weithredwr/Llyfrgellydd sydd a'r prif gyfrifoldeb am gydraddoldeb a chyfleoedd cyfartal o fewn y sefydliad gyda'r gwaith monitro wedi ei ddirprwyo i'r ddau Gyfarwyddwr a'r Penaethiaid Adran. Mae'r gwaith gweithredol dydd i ddydd yn eistedd o fewn yr Uned Adnoddau Dynol gyda'r Rheolwr Adnoddau Dynol yn gyfrifol am Gadeirio cyfarfodydd y Grŵp Amrywedd ac adrodd a'r gynydd yn chwarterol i'r Tîm Gweithredol.

Rôl y Grŵp Amrywedd

- Adolygu'r ddeddfwriaeth berthnasol bresennol a pharhaus i sicrhau bod y llyfrgell yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol.
- Adolygu unrhyw agwedd o weithgaredd y llyfrgell i sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn ei harferion cyflogaeth nac wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd ac i sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal a'u gweithredu.
- Sicrhau bod mecanwaith ar waith i fonitro ac adrodd ar weithgareddau cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Datblygu strategaeth berthnasol a gefnogir gan bolisïau a gweithdrefnau i'w hystyried gan Dîm Gweithredol y Llyfrgell.
- Sicrhau cynllunio a cyfathrebu bodolaeth a phwrpas y grŵp er mwyn annog cymorth gyda'i gweithgareddau.
- Ceisio cefnogaeth allanol lle bo'n briodol er mwyn sicrhau bod gan y llyfrgell fynediad at y cyngor mwyaf priodol mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cyfrifoldebau dydd i ddydd

Mae cyfrifoldeb ar bob Rheolwr Llinell i sicrhau bod y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael ei gweithredu yn gyson, ac i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn deall cynnwys y polisi. Gellir dod o hyd i gopi o'r Cynllun hwn a'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar wefan y Llyfrgell, www.llyfrgell.cymru